

Datganiad Diogelu Data

Mae Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Monitro Annibynnol o reidrwydd yn prosesu data personol at ddibenion eu swyddogaethau cyhoeddus, mewn agweddau gweinyddu recriwtio a phenodi Penodiadau Cyhoeddus.

Data personol yw data sy'n ymwneud ag unigolyn byw y gellir ei adnabod o'r data hynny. Mae prosesu data personol yn cael ei lywodraethu gan gyfreithiau diogelu data. Mae Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Monitro Annibynnol (IMB) a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) fel yr adran noddi, yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan y deddfau diogelu data trwy brosesu data yn unol â hawliau'r rhai hynny y mae eu data gennym; cadw'r data personol yr ydym yn eu cadw wedi'u diweddarau; trwy beidio â chasglu na chadw gormod o ddata; diogelu data personol rhag colled, camddefnyddio, eu cyrchu a'u datgelu heb awdurdod yn unol â safonau Llywodraeth Ei Mawrhydi.

Er mwyn cyflawni ei swyddogaethau, efallai y byddwn yn rhannu data personol gyda sefydliadau eraill. Mae'r sefydliadau hyn yn cynnwys adrannau eraill y llywodraeth, awdurdodau lleol a sefydliadau sector preifat neu wirfoddol sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau. Ni chaiff data personol eu rhannu y tu allan i'r Ysgrifenyddiaeth oni bai fod y gyfraith yn caniatáu hynny.

Mae staff yr Ysgrifenyddiaeth yn derbyn hyfforddiant blynyddol i'w hatgoffa o'u rhwymedigaethau, ac i roi arweiniad ymarferol iddynt ynghylch ymdrin â data personol. Rydym hefyd yn gweithio ar y cyd â'n noddwyr yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder i sicrhau bod ein holl gontractwyr, partneriaid a chyflenwyr yn cyrraedd ein safonau diogelwch uchel wrth drin gwybodaeth bersonol.

Pa wybodaeth rydyn ni'n ei chasglu?

Eich cais: Pan fyddwch chi'n gwneud cais am benodiad cyhoeddus fel aelod o'r IMB drwy'r Ysgrifenyddiaeth, gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth bersonol i gefnogi'ch cais, ac i benderfynu ar eich cymhwyster a'ch cynladwyedd fel penodai cyhoeddus. Bydd hyn yn cynnwys yr wybodaeth bersonol sydd ei hangen arnom i'n galluogi i ddewis yr ymgeisydd iawn ar gyfer y rôl, a gall gynnwys pethau fel manylion cyflogaeth yn y gorffennol, gweithgarwch gwleidyddol, sgiliau a gweithgareddau gwirfoddoli eraill. Os ydych chi'n llwyddiannus yn y broses benodi, efallai y bydd unrhyw wybodaeth bersonol a roddir i ni wedyn yn ffurfio rhan o'ch cofnod Aelod y byddwn yn ei ddal.

Gwiriadau Fetio Diogelwch: Cyn i chi gael eich penodi, byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol i gynnal y gwiriadau fetio diogelwch perthnasol, gan gynnwys gwiriadau cofnod troseddol.

Cofnodion aelodau: Gall gwybodaeth a ddelir amdanoch chi tra'ch bod yn benodai cyhoeddus gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i ffurflenni cais, manylion personol (megis enw, dyddiad geni, cyswllt a manylion perthynas agosaf, copïau o brawf adnabod, cyfrifon banc neu gymdeithas adeiladu, ymchwiliadau i bryderon ymddygiad, a chofnodion o achosion disgyblu.

Pam ydym ni'n casglu'r wybodaeth hon a beth ydym ni'n ei wneud ag ef?

I ad-dalu'ch hawliadau teithio a chynhaliadau: Rydym yn prosesu'ch hawliadau am dreuliau ar y cyd â'r tîm cyllid canolog.

I reoli agweddau eraill ar eich Penodiad Cyhoeddus: Bydd yr wybodaeth bersonol yr ydym yn ei chasglu a'i defnyddio yn cynnwys (neu wedi'i chynnwys mewn) gwybodaeth am eich rôl fel penodai cyhoeddus, gan gynnwys (ond heb ei gyfyngu i) eich cofnodion hyfforddiant, gwrthdaro buddiannau dynodedig, trosglwyddo rhwng byrddau, adnewyddiadau diogelwch (DBS a CTC), y Gwasanaeth Prawf, yr Adolygiad Tair Blynedd a deiliadaeth.

I brosesu cwynion am ymddygiad aelodau: gan gynnwys cwynion, anghytundebau rhwng aelodau neu dorri polisi ymddygiad y Bwrdd Monitro Annibynnol.

I gysylltu â 'ch cyswllt enwebedig (perthynas agosaf) mewn achos argyfwng (naill ai'ch un chi neu un ni) yn ogystal ag ar gyfer materion sy'n ymwneud ag aelodau/bwrdd: byddwn yn gofyn ichi roi rhifau ffôn cartref inni, rhifau ffôn symudol ac (yn achos perthnasau agosaf) enwau'r bobl.

Pwy sy'n gallu cael mynediad at eich gwybodaeth bersonol?

Dim ond y rhai sydd ag angen cyfreithlon i gael mynediad at eich gwybodaeth bersonol fydd yn gallu gwneud hynny. Er enghraifft, eich Swyddog Penodiadau yn yr Ysgrifenyddiaeth pan fyddant yn prosesu'ch penodiad neu'n gweithio ar dasgau Recriwtio a Phenodiadau – fel prosesu ceisiadau fetio neu drosglwyddiadau rhyng-fwrdd.

Pwy allwn ni rannu eich gwybodaeth gyda?

Efallai y byddwn yn datgelu gwybodaeth bersonol benodol â chyrrff allanol os oes rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddiddordeb cyfreithlon i'w rannu. Bydd hyn yn cynnwys y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Cadeirydd y Bwrdd, aelodau'r panel cyfweld, y cyfwelydd annibynnol. Gallai hefyd gynnwys eich Cynrychiolydd Cyngor Cenedlaethol a'ch Cadeirydd Cenedlaethol. Fel penodedigion cyhoeddus, gellir rhannu eich data gyda Chomisiwn y Gwasanaeth Sifil, Y Pwyllgor Ymgynghorol ar Benodiadau Busnes a Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus. O ran eich data fetio, bydd hyn yn cael ei rannu gyda Gwasanaeth Carchardai a Gwasanaeth Prawf EM, y Swyddfa Gartref a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Bydd faint o wybodaeth a ddatgelir a'r modd y caiff ei datgelu yn unol â chyfreithiau diogelu data bob amser.

Pa mor hir ydyn ni'n dal eich gwybodaeth?

Dim ond cyn belled â bod angen busnes neu rwymedigaeth gyfreithiol i'w cadw yn unol â pholisi cadw a gwaredu'r Ysgrifenyddiaeth y byddwn yn cadw eich data personol.

Beth yw eich hawliau?

I gael mwy o wybodaeth am eich hawliau dan y deddfau diogelu data gan gynnwys;

- sut i gael copi o'r data personol sydd gennym amdanoch chi,
- manylion cyswllt Swyddog Diogelu Data'r Adran, a
- sut i wneud cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth

cysylltwch ag Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Monitro Annibynnol: imb@justice.gov.uk